# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 21 Tachwedd 2016

Amser: 14.00 - 16.20

# Preifat

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Nick Ramsay AC (Cadeirydd)<br>Mohammad Asghar (Oscar) AC<br>Neil Hamilton AC<br>Mike Hedges AC<br>Neil McEvoy AC<br>Rhianon Passmore AC<br>Lee Waters AC |
| Swyddfa Archwilio Cymru: | Huw Vaughan Thomas<br>Alan Morris<br>Matthew Mortlock |
| Staff y Pwyllgor: | Fay Buckle (Clerc)<br>Meriel Singleton (Ail Glerc)<br>Claire Griffiths (Dirprwy Glerc)<br>Kate Faragher |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd aelodau'r Pwyllgor.
1.2 Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

## 2 Papur(au) i'w nodi

2.1 Cytunwyd ar y cofnodion.

## 3 Ymchwiliad i Drefn Reoleiddio Cymdeithasau Tai

3.1 Nododd yr Aelodau fod yr ymgynghoriad ysgrifenedig wedi agor heddiw, a'i fod yn dod i ben ar 5 Ionawr 2017.
3.2 Nododd yr Aelodau y digwyddiad i randdeiliaid a gynhaliwyd ar 5 Rhagfyr gyda thenantiaid cymdeithasau tai.
3.3 Cododd yr Aelodau nifer o bwyntiau i holi yn eu cylch yn y sesiynau tystiolaeth.

## 4 Consortia Addysg Rhanbarthol: Memorandwm gan Archwilydd Cyffredinol Cymru

4.1 Cafodd y Pwyllgor friff gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ynghylch y Memorandwm Consortia Addysg Rhanbarthol a gyhoeddwyd yn ddiweddar.
4.2 Cytunodd yr Aelodau i gynnal ymchwiliad ar y mater hwn yn y gwanwyn 2017.

## 5 Craffu ar Gyfrifon: Trafod yr adroddiad drafft, a chytuno arno

5.1 Dywedodd Archwilydd Cyffredinol Cymru yr hoffai roi sylwadau ysgrifenedig ar yr adroddiad. O'r herwydd, gohiriwyd yr eitem ar gyfer cyfarfod arall yn y dyfodol.

## 6 Adolygiad o ffyrdd Pwyllgorau'r Cynulliad o weithio

6.1 Croesawodd y Cadeirydd Kate Faragher o Bespokeskills i'r cyfarfod.
6.2 Rhoddodd Kate Faragher adborth i'r Aelodau ar eu rôl fel Aelodau o'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ac ar ffordd y Pwyllgor o weithio yn dilyn ei sesiwn flaenorol a gynhaliwyd fel rhan o raglen gynefino'r Pwyllgor ym Medi 2016.
6.3 Gofynnodd yr Aelodau am sesiwn arall ar eu perfformiad yn haf 2017.